# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-11-06(p6)

**Dyddiad: Dydd Iau 6 Gorffennaf 2006**
**Amser: 9.30am tan 12.30pm**
**Lleoliad: Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth White Rose, Tredegar Newydd**

## Teitl: Cymunedau yn Gyntaf: Y diweddaraf am Fentrau a Chanfyddiadau sy’n Ymddangos o’r Gwerthusiad

### Diben

Hysbysu’r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu’r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gan gynnwys cyflwyno canfyddiadau sy’n ymddangos o werthuso Cymunedau yn Gyntaf a chynigion i symud y rhaglen yn ei blaen yng ngoleuni‘r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru diwygiedig.

### Crynodeb

Tynnir sylw isod at y prif ddatblygiadau o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf:

### Datblygu Partneriaethau

Hyd yma, mae 137 o Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i’w cael. Mae arian wedi ei ddyrannu i gefnogi gweithredu’r rhaglen yn genedlaethol ac yn lleol.

Mae’r rhan fwyaf o ddigon o’r Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn y cam meithrin gallu ac ychydig ohonynt erbyn hyn yn dynesu at gynllunio gweithredu cymunedol.

### Prif ffrydio

Fel y bu i mi gadarnhau eto yn y Cyfarfod Llawn y mis Chwefror hwn mae fy nghyllideb Cymunedau yn Gyntaf wedi’i thargedu’n bennaf at gynnal staff a chostau gweinyddol Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a meithrin gallu cymunedau. Mae’r arian hwn i fod i roi’r sgiliau, y profiad a’r arbenigedd i aelodau’r gymuned ymgysylltu â’r rheini sy’n cyflwyno gwasanaethau. Ni fu’n fwriad erioed i gyllid Cymunedau yn Gyntaf gymryd lle cyllid sydd ar gael o ffynonellau prif ffrwd eraill.

Rwy’n teimlo’i bod yn bwysig pwysleisio eto mor bwysig yw i sefydliadau brif ffrydio eu rhaglenni a’u polisïau i gefnogi gweithgareddau Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Rwy’n gweithio ar lefel Gweinidog, a’m staff yn gweithio ar lefel swyddogol, er mwyn sicrhau fod meysydd ar draws y Cynulliad a’r tu allan i’r Cynulliad hefyd yn prif ffrydio eu rhaglenni a’u polisïau i gyfeiriad ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Rhaid i ni dderbyn fod llwyddiant Cymunedau yn Gyntaf yn dibynnu ar ddarparwyr gwasanaeth eraill yn ymgysylltu â’r rhaglen a chyda partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol.

Gwelir enghraifft ardderchog o brif ffrydio ac ymgysylltu â’r rhai sy’n cyflwyno gwasanaethau yma yng Nghanolfan y Rhosyn Gwyn. Er nad yw’n rhoi cyllid cyfalaf i’r Ganolfan, mae Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Tredegar Newydd wedi bod yn ymwneud i raddau helaeth â dylanwadu ar y gwaith adeiladu. Bu aelodau o’r Bartneriaeth yn mynychu cyfarfodydd cynllunio a chynrychiolwyr o gwmni Mc Alpines yn mynychu cyfarfodydd Partneriaeth er mwyn sicrhau fod popeth yn mynd ymlaen yn hwylus. O ganlyniad i hyn, cwblhawyd yr ysgol a’r aden gymunedol o fewn 12 mis. Oddi ar hynny dyfarnwyd cyllid refeniw Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf i bartneriaeth Tredegar Newydd ar gyfer costau adeiladau yn ogystal â deunydd hyrwyddo. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn cyllido Rheolwr y Ganolfan hefyd; ei brif swyddogaeth ef yw sicrhau y gwneir cymaint o ddefnydd ag sy’n bosibl o’r ganolfan er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn yr hirdymor.

## Gwerthuso

Cymunedau yn Gyntaf yw polisi canolog Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynd i’r afael ag amddifadedd ac anfantais gymdeithasol. Mae ei egwyddorion yn treiddio drwy weithrediad holl bolisïau Llywodraeth y Cynulliad sy’n cyfrannu at fynd i’r afael â’r problemau hyn. Mae’r holl bolisïau hyn yn rhagweld rôl allweddol i’r cymunedau eu hunain. Cymunedau yn Gyntaf yw’r rhaglen sy’n sicrhau y gall y cymunedau gyflawni eu swyddogaeth a’u bod yn gallu cyfrannu at eu hadfywiad eu hunain. Mae’r gwerthusiad Cymunedau yn Gyntaf wedi cefnogi rhagoriaeth y dull hwn o weithredu ac mae’n cadarnhau fod ein hyder mewn pobl leol yn dod â buddion fydd o fantais i’r genhedlaeth hon a chenedlaethau i ddod.

Lansiwyd Cymunedau yn Gyntaf fel rhaglen lleiafswm deng mlynedd o leiaf sy’n ceisio mynd i’r afael ag effeithiau degawdau o amddifadedd ac esgeulustod. Ei amcan allweddol yw rhoi grym i unigolion a chymunedau drwy eu galluogi i weithio gyda darparwyr gwasanaethau lleol ac eraill i lunio a gweithredu strategaethau i ymdrin â blaenoriaethau'r cymunedau hynny eu hunain. Mae’r rhaglen angen sylfaen gadarn o gyfranogiad cymunedol, profiad, gwybodaeth a hunanhyder er mwyn cyflawni ei amcanion. Nid yw hyn yn waith rhwydd. Mae rhan gyntaf y rhaglen wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu a chefnogi gweithgareddau meithrin gallu a fydd yn gosod y sylfeini ar gyfer cyfranogi cymdeithasol effeithiol.

Dangosodd yr ymgynghori diweddar ar y Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru newydd fod cymunedau sydd wedi cael budd o Gymunedau yn Gyntaf yn llawer mwy abl i gynrychioli barn eu cymunedau ar bolisïau allai effeithio arnynt. Mae’r barnau hyn wedi cyfrannu’n sylweddol tuag at fy nghynigion ar y ffordd ymlaen i’r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wrth ymateb i MALlC 2006.

Mae’r canfyddiadau a ddaeth i’r amlwg yn sgil gwerthuso’r rhaglen gan Cambridge Policy

Consultants ynghlwm yn Atodiad A. Rwy'n croesawu'r canfyddiadau'n fawr iawn. Fel y gwelwch o'r Atodiad, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgysylltu'n dda iawn yn y broses werthuso drwyddi draw. Rydym wedi cymryd cyfrif o ganfyddiadau'r gwerthusiad wrth i'r rhaglen ddatblygu, ac wedi eu rhoi ar waith, yn hytrach nag aros tan ddiwedd y gwerthusiad. Er enghraifft, mae'r Canllawiau diwygiedig, a anfonwyd i'r aelodau, wedi ei seilio i raddau helaeth ar ganfyddiadau'r gwerthusiad ac mae'n mynd i'r afael â materion sy'n rhwystro datblygiad partneriaethau. Comisiynwyd yr astudiaeth werthuso interim am dair blynedd o 2003. Mae'r adroddiad sydd ynghlwm yn cynnwys y prif ganfyddiadau sy'n ymddangos o'r broses werthuso, gan gynnwys:

Adolygiad o lenyddiaeth i ddysgu o fodelau adfywio cymunedol yn y DU ac Ewrop;

Ymchwil gweithredu mewnol dwys gyda swyddogion Uned Cymunedau yn Gyntaf i nodi a datrys materion o bwys sy'n effeithio ar berfformiad rhaglenni.

Ymchwil weithredu dwys yn lleol mewn tair ardal i ymchwilio i faterion neilltuol sy'n berthnasol i'r holl raglen ar lefel leol gyda phroses ymchwil weithredu.

Cyflogi MORI i gynnal cyfweliadau i edrych ar ba mor dda mae proses Cymunedau yn Gyntaf yn gweithredu o safbwynt pobl leol.

30 astudiaeth achos y gwelwyd eu bod yn werthfawr i nodi arfer da a datgelu goblygiadau rhwystrau i'r rhaglen o weithredu'r rhaglen ar lefel leol sy'n effeithio ar y rhaglen yn ei chyfanrwydd.

Consortiwm yw'r tîm gwerthuso dan arweiniad Cambridge Policy Consultants ac mae'n cynnwys Arwel Jones Associates, Danny Burns (Social and Organisational Learning as Action Research, UWE), MORI, a'r Ganolfan Ymchwil Dinasoedd. Nid wyf wedi gofyn iddynt ddod i'r cyfarfod hwn gan fod gennym raglen lawn iawn.

Byddwn yn falch o dderbyn sylwadau'r aelodau ar y canfyddiadau sydd wedi ymddangos yn sgil y gwerthusiad. Bydd y gwerthusiad yn cael ei gwblhau yn ystod yr haf, ac mae trafodaeth ar yr adroddiad terfynol wedi ei archebu dros dro yn y pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ym mis Hydref 2006. Yn ogystal â hyn, cytunais, yn y Cyfarfod Cymunedau yn Gyntaf Llawn ar Chwefror y1af y byddai Dadl Lawn ar y Gwerthusiad. Rwy'n gobeithio trefnu hyn ar gyfer tymor yr hydref 2006 ar ôl cyflwyno'r adroddiad i'r pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

## Adroddiad Sylfaenol ar Cymunedau yn Gyntaf

Yn ogystal â'r Gwerthusiad Interim o Gymunedau yn Gyntaf, mae ' Adroddiad Cychwynnol ' yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i edrych ar yr ystadegau sydd ar gael ar gyfer ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Rwyf wedi gwneud hyn mewn ymateb i ganfyddiadau'r gwerthusiad a cheisiadau gan bobl ar lawr gwlad sydd am gael gweld cynnydd yn erbyn dangosyddion economaidd yn eu hardaloedd. Mae Swyddogion yn Uned Ymchwil a Gwybodaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio gyda swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Ystadegau a Chartograffeg i gynhyrchu'r Adroddiad.

Amlinellir strwythur yr adroddiad yn Atodiad B. Bydd hwn yn darparu ffigyrau o'r Cyfrifiad a'r Adran Gwaith a Phensiynau i bob ardal Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer 2001 a bydd yn cael ei ddiweddaru dros amser.

Rwyf wedi derbyn nifer o gwestiynau ynglyn â chreu swyddi fel rhan o'r rhaglen gan Aelodau Cynulliad ac aelodau o gymunedau. Bydd yr adroddiad sydd ynghlwm yn darparu gwybodaeth am lefelau incwm a gweithgarwch cymdeithasol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn 2001 a bydd yn cael ei ddiweddaru â gwybodaeth ychwanegol wrth i adroddiadau cynnydd gael eu darparu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, mae nifer o newidynnau sy'n ei gwneud yn anodd priodoli newidiadau dros gyfnod 2001 hyd yn awr i Gymunedau yn Gyntaf yn unig. Mae Atodiad B yn nodi'r rhesymau dros fod yn rhagofalus wrth ddefnyddio'r wybodaeth hon.

## Canllawiau Cymunedau yn Gyntaf

Mae'r Canllawiau Cymunedau yn Gyntaf drafft newydd yn eang, yn fanwl, ac yn llawn gwybodaeth ac mae gwaith ymgynghori'n cael ei wneud arnynt ar hyn o bryd. Mae'r Canllawiau wedi eu seilio i raddau helaeth ar ganfyddiadau'r gwerthusiad a'r adborth yr wyf i a'm swyddogion wedi eu derbyn gan aelodau o'r gymuned a staff Cymunedau yn Gyntaf. Mae hwn wedi ei anfon i'r holl Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a rhan-ddeiliaid allweddol er mwyn cael eu barn. Yn ychwanegol at hyn, er mwyn sicrhau fod y gynulleidfa fwyaf bosib yn gweld y Canllawiau, rwyf wedi gofyn i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gydlynu ymateb gan y Sector Gwirfoddol.

Fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, ysgrifennais at Gadeirydd y Pwyllgor ar Fai 24ain gan gynnwys copi o'r Canllawiau a gofyn i gopïau ohono gael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor am sylwadau. Rwy'n gwbl fodlon derbyn sylwadau gan Aelodau heddiw a thrafod rhai o'r materion sydd gennych.

## Adolygu Sefydliadau Cronfa Gymorth

Dywedais wrth yr aelodau yn y pwyllgor Fis Rhagfyr diwethaf fy mod yn credu ei bod yn amser gwerthuso pa gymorth sy'n cael ei ddarparu, er bod y trefniadau cymorth a ddarparwyd i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi gweithio'n dda iawn i ni ym mlynyddoedd cynnar Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn gweld beth sy'n gweithio a datgelu unrhyw fylchau y mae angen eu llenwi.

Mae Swyddogion yn Uned Ymchwil a Gwybodaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn adolygu ac yn gwerthuso'r trefniadau cymorth presennol. Bydd y trefniadau hyn yn aros fel y maent hyd ddiwedd mis Mawrth 2007 gyda threfniadau diwygiedig ( wedi eu seilio ar ganlyniad yr adolygiad ) i fod yn eu lle erbyn Ebrill 2007. Nid yw'r arolwg yn cynnwys Rhwydwaith Cymorth Cymunedau yn Gyntaf a fu'n destun proses debyg yn 2005, ond y sefydliadau cymorth sy'n rhoi cymorth yn ychwanegol i'r rhwydwaith. Hyd yma, mae cyfweliadau wedi cael eu cynnal gyda'r sefydliadau cronfa gymorth presennol er mwyn cael eu barn ar y cymorth y maent wedi ei roi yn ogystal â'r cymorth y maent yn rhagweld y bydd ei angen yn y dyfodol. Anfonwyd holiadur i bob Partneriaeth Cymunedau er mwyn canfod beth mae hwy'n ystyried yw eu blaenoriaeth a'r meysydd allweddol ble byddent yn croesawu cymorth y - mae eu barn yn hollbwysig. Rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r cymorth y mae Partneriaethau Cymunedau yn

Gyntaf yn ei dderbyn yn lleol ac mae'n bwysig felly nad yw unrhyw gefnogaeth genedlaethol yn dyblygu hwn.

Y nod yw cwblhau adroddiad erbyn Awst 2006. Bydd fy swyddogion yn fy nghynghori wedyn sut i fynd ymlaen gyda'r trefniadau Cymorth i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf o Ebrill 2007. Er mwyn sicrhau cystadleuaeth a gweithredu agored, bydd ymarfer caffael yn cael ei gynnal wedyn ble bydd sefydliadau yn gallu gwneud cais am fath arbennig o gymorth ar gyfer Partneriaeth o Ebrill 2007.

## Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru

Mae cyhoeddi'r Mynegai newydd wedi rhoi darlun mwy manwl i ni o anfantais mewn rhai ardaloedd penodol yng Nghymru. Fis Rhagfyr diwethaf, ysgrifennais at yr holl Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf gan eu gwahodd i roi ei barn ar sut gallai'r Mynegai diwygiedig effeithio ar y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Derbyniwyd oddeutu 55 ymateb, gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf gan mwyaf. Cynigiwyd sylwadau hefyd gan nifer o sefydliadau, awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol yn bennaf hefyd - fel arfer ar ôl i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol gysylltu â hwynt i wneud hynny. Bydd yr ymatebion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.

Barn groyw pawb a ymatebodd i'r ymgynghori yw y dylid cadw'r ardaloedd a bennwyd yn y lle cyntaf fel rhai Cymunedau yn Gyntaf, waeth beth yw eu statws newydd ar MALlC 2005. Rwyf yn cefnogi'r farn hon gan fod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi ymrwymiad 10 mlynedd i'r ardaloedd hyn. Fel y dangosodd y gwerthusiad, mae cryn ffordd i fynd eto gyda phartneriaethau presennol, a byddai'n niweidiol dros ben atal y cymorth i'r cymunedau hyn ar ganol y rhaglen.

Dywedodd mwyafrif helaeth y rhai yr ymgynghorwyd â hwy y dylai'r 46 Ardal Cynnyrch Ehangach Lefel Is (LSOA) sy'n ffurfio'r 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Rhaglen ar hyn o bryd, gael dod i mewn i'r Rhaglen ar ryw adeg, ond nid ar draul ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf presennol.

Dywedodd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy hefyd y dylid bod yn hyblyg os bydd rhai neu'r cyfan o'r 46 Ardal Cynnyrch Ehangach Lefel Is yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen, gan ddefnyddio gwybodaeth leol mewn ymgynghoriad â'r holl ran-ddeiliaid allweddol. Roedd y rhan-ddeiliaid yn bendant y byddent am gael amser i feddwl am y materion ac i asesu sut y byddant yn cyd-fynd gyda phartneriaethau presennol. Gwnaeth nifer o ymatebwyr y pwynt hefyd nad yw'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lefel Is yn cyd-ffinio â chymunedau naturiol, ar y cyfan, o dderbyn eu maint, ac mae angen meddwl eto am hyn yn drwyadl ofalus.

Yn sgil y syniadau hyn gan gymunedau ag eraill, rwy'n bwriadu ymgynghori ymhellach ar sut i integreiddio'r 46 Ardal Cynnyrch Ehangach Lefel Is hynny sydd nawr ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig ac nad ydynt wedi ei dynodi yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd i'r Rhaglen. Wrth gwrs, byddaf yn hysbysu'r pwyllgor yn llawn am fy nghynigion.

## Themâu Trawsbynciol

Mae union natur Cymunedau yn Gyntaf yn golygu mai rhaglen drawsbynciol yw. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau fod polisïau a rhaglenni eraill yn cael eu prif ffrydio i gefnogi gwaith Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Rhagwelir y bydd yr adolygiad o'r gefnogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd cyfartal gan fod bylchau ar hyn o bryd yn y cymorth a ddarperir gan y sefydliadau cenedlaethol. Er enghraifft, nid oes unrhyw sefydliad yn cael ei gyllido ar hyn o bryd i roi cymorth ar faterion rhyw neu anabledd corfforol ac mae'r ddarpariaeth cymorth i blant a phobl ifanc yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar nifer fach o Bartneriaethau.

## Gweithredu i'r Pwyllgor Pwnc

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ar Gymunedau yn Gyntaf ac i wneud sylwadau ar ei ddatblygiad yn y dyfodol. Gofynnir yn benodol i'r Pwyllgor roi barn ar y canfyddiadau sydd wedi ymddangos o'r gwerthusiad, ar strwythur yr adroddiad sylfaenol y Canllawiau Cymunedau yn Gyntaf diwygiedig, a'm cynigion ar gyfer ymgorffori'r 46 Ardal Cynnyrch Ehangach Lefel Is.

**Edwina Hart AC MBE**

**Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**Pwynt cyswllt : Chris Gittins, Cyfarwyddiaeth Cymunedau, Ffôn : 029 20801052**